

Gio Isingrini
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian
Tonypandy
CF40 2XX

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Gio Isingrini,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- nodi ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol mewn llawer o achosion o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- arolygu gwasanaethau plant, gan ganolbwyntio ar y cymorth i blant anabl ym mis Rhagfyr 2019
- gweithgaredd â ffocws mewn perthynas â chymorth i ofalwyr ym mis Mawrth 2020
- gweithgaredd â ffocws mewn perthynas â chymorth i ymadawyr gofal ym mis Mawrth 2020

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r awdurdod lleol wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

[Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014](#)

Llesiant

Mae cymorth corfforaethol cryf i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd gan yr awdurdod lleol gynlluniau i newid y model cyflawni ar gyfer rhoi cymorth i blant anabl cyn i ni arolygu'r gwasanaeth hwn, a bydd y model terfynol yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym. Roeddent yn cynnwys mwy o gymorth i frodyr a chwiorydd plant anabl a mwy o asesiadau o ofalwyr sy'n rhieni. Nid oeddem yn hyderus bod ymarferwyr a rheolwyr yn hyrwyddo hawliau cyfreithiol rhieni i asesu eu hanghenion am gymorth.

Gwelsom fod modd gwella'r asesiadau o blant anabl a rhai sy'n gadael gofal drwy ganolbwyntio fwy ar gryfderau'r plentyn, a'i deulu lle y bo'n briodol, yn ogystal â dymuniadau a theimladau'r plentyn. Dylai'r asesiadau nodi'r canlyniadau personol yr hoffai'r plentyn neu'r person ifanc eu cyflawni'n gliriach. Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gwerthfawrogi eu cynghorwyr personol; ond mae pwysau adnoddau ar y gwasanaeth hwn. Dylai'r adolygiadau o gynlluniau llwybrau pobl ifanc gael eu cynnal yn fwy rheolaidd a thrylwyr a dylid sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf gan yr asiantaethau perthnasol yn cael ei chynnwys.

Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau cyflwyno dulliau arloesol o ymarfer mewn perthynas â chymorth i ofalwyr rhieni, mewn ymateb i'n harolygiadau o wasanaethau i oedolion hŷn ym mis Mawrth 2019. Ym mis Mawrth 2020, gwelsom ymdrechion rhagweithiol i roi cymorth i'r rheini sy'n gofalu am bobl yn y gymuned ar ffurf 'sgyrsiau â gofalwyr', a all fod yn sail i asesiadau cymorth. Ar adeg ein hymweliad, roedd yr uwch-reolwyr ar fin gwerthuso effaith y dull newydd; ac roedd ein canfyddiadau'n gadarnhaol.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i adolygu'r pecynnau cymorth i oedolion lle mae dau weithiwr gofal yn darparu gofal cartref. Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i raddau helaeth i nodi cyfarpar neu dechnegau ychwanegol er mwyn galluogi gweithiwr gofal unigol i ddarparu'r un lefel o ofal. Mae hyn wedi arwain at hyrwyddo annibyniaeth pobl yn ogystal â

sicrhau bod mwy o weithwyr ar gael i ofalu am bobl eraill, lle y mae'r galw'n uchel. Mae'r uwch-reolwyr yn parhau i adolygu eu darpariaeth o gartrefi gofal ac yn bwriadu lleihau'r capasiti yn y dyfodol er mwyn creu mwy o gyfleusterau gofal.

Mae'r awdurdod lleol wedi ceisio ateb y galw am leoliadau gofal i blant ag anghenion cymhleth iawn, ac wedi cofrestru cartref gofal ar gyfer lleoliadau brys. Mae'r awdurdod lleol yn ceisio defnyddio dull therapiwtig yn ei leoliadau ac wedi darparu hyfforddiant priodol i'r staff. Mae'r tîm therapiwtig, sy'n cynnwys seicolegwyr a therapyddion teulu, yn rhoi cymorth i blant sy'n derbyn gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal, yn ogystal â phlant sydd â phrofiad o ofal. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi defnyddio dulliau arloesol o gyflogi pedwar ymarferydd i gynnal gwaith stori bywyd gan ddefnyddio technoleg ddigidol a model gwaith rhagweithiol.

Yn yr un modd â phob awdurdod lleol, hoffai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal lle y bo'n ddiogel gwneud hynny. Cafwyd cynnydd yn ddiweddar gan fod mwy o fabanod yn destun Gorchmynion Gofal ac roedd yr uwch-reolwyr yn sicrhau bod menywod sy'n agored i niwed yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod beichiogrwydd.

Pobl

Roedd y rhieni'n cael trafferth cyflogi cynorthwyyr personol ar gyfer eu plant anabl. Roedd yr uwch-reolwyr mewn gwasanaethau plant ac oedolion yn bwriadu adolygu'r ffordd y caiff taliadau uniongyrchol eu hyrwyddo a'u defnyddio ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwella ei ddarpariaeth o wasanaethau eirioli i bobl hŷn ers ein harolygiad y llynedd. Gwnaethom nodi bod angen cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaethau eirioli i blant anabl ac, yn gyffredinol, gellid gwneud mwy i sicrhau bod llais y plentyn wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymgynghori â phobl am y broses o ddatblygu ei wasanaethau. Mae'r staff wedi cwblhau gweithgarwch ymgysylltu strwythuredig â gofalwyr i ddeall eu safbwyntiau ynghylch fformat a phroses yr asesiadau gofalwyr. Mae hyn wedi arwain at ddull newydd. Mae'r rheolwyr hefyd wedi ymgynghori â'r staff yn helaeth eleni ar ailfodelu timau i gefnogi plant anabl.

Gwelsom fod y staff yn gadarnhaol ac yn ymroddedig yn ystod ein hymweliadau â gwasanaethau plant eleni. Mae recriwtio yn dal i fod yn her ac arweiniodd gwelliannau diweddar i gyflogau a manteision ariannol eraill i rai aelodau o'r staff, at adolygiad mwy cynhwysfawr o bob rhan o'r gweithlu ehangach. Byddai'r ymarferwyr sy'n rhoi cymorth i blant anabl yn cael budd o fynediad gwell at hyfforddiant arbenigol.

Byddai mwy o ddulliau goruchwylio gan reolwyr a sicrhau ansawdd o fudd i'r tîm plant anabl a'r tîm 16+. Gallai adolygiad systemig o gapasiti, ymarfer dyrannu a'r defnydd o adnoddau arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y tîm 16+.

Nid oeddem yn hyderus bod y bobl ifanc a oedd yn gadael gofal yn derbyn cymorth gan y Cynnig Rhagweithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn effeithio ar ganfyddiad siaradwyr Cymraeg ifanc o'r gwerth a roddir ar eu hiaith, a'u hawl i ddewis cyfrwng eu cymorth.

Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'i ddyletswydd gyfreithiol ac ail-greu cofrestr anabledd.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Yn ystod ein harolygiad o wasanaethau plant, gwnaethom nodi gwelliant yn yr ymateb cychwynnol i ymholiadau ac atgyfeiriadau wrth y 'drws ffrynt'.

Roedd y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol yn darparu cymorth a oedd yn canolbwyntio ar gryfderau teuluoedd a chanlyniadau personol i blant anabl a'u teuluoedd. Roedd yn falch o weld bod amrywiaeth o grwpiau a gwasanaethau cymorth ar gael i ofalwyr plant anabl. Dylai adolygiad wedi'i gynllunio o wasanaethau a gomisiynwyd sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion teuluoedd, yn mapio'r galw yn y dyfodol ac yn helpu i lywio'r farchnad. Roedd y gwasanaeth 'gwarchod' yn amlwg yn cael ei werthfawrogi ac roedd yr uwch-reolwyr yn bwriadu datblygu dulliau amgen o greu model mwy traddodiadol ar gyfer gofal seibiant/seibiannau byr.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal, ac rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amlder adolygiadau diwedd lleoliad. Rydym wedi derbyn polisi sefydlogrwydd lleoliadau'r awdurdod lleol sy'n gofyn am gynlluniau cadarn cyn lleoli a chamau gorfodi penodol os bydd lleoliad mewn perygl o fethu. Gall hyn gynnwys cyflwyno adolygiad o blentyn sy'n derbyn gofal yn gynt neu gynnal cyfarfod sefydlogrwydd lleoliadau penodol. Ymddengys bod adolygiad o ddiwedd lleoliad yn elfen ddewisol ac nid yn elfen orfodol o'r polisi hwn

Partneriaethau

Mae'r hwb diogelu amlasiantaethol wedi ymsefydlu ac yn dangos tystiolaeth dda o drefniadau gweithio ar y cyd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bartner cadarn ac ymroddedig i'r bwrdd diogelu rhanbarthol ac i fforymau rhanbarthol eraill. Bu'n rhaid i'r awdurdod lleol ddefnyddio trefniadau gweithio rhanbarthol newydd ym mis Ebrill 2019 yn sgil ailalinio ffiniau'r bwrdd iechyd. Roedd llawer o waith wedi cael ei wneud i sefydlu partneriaethau gweithredol a strategol newydd ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol

Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Roedd uwch-reolwyr yr awdurdod lleol am achub ar y cyfle i gryfhau a datblygu trefniadau gweithio ar y cyd â'r bwrdd iechyd.

Mae angen i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ddod i benderfyniad gwell ynghylch cymhwysedd i barhau â threfniadau gofal i blant ag anghenion cymhleth. Mae'r broses hon yn un heriol, sy'n arwain at drafodaethau â sawl asiantaethm a gall gymryd llawer o amser. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na welsom fod hyn yn effeithio ar wasanaethau a ddarperir i blant.

Mae'r awdurdod lleol wrthi'n sefydlu gwasanaeth llesiant emosiynol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, sy'n enghraifft gadarnhaol o weithio ar y cyd sydd â'r nod o ddiwallu anghenion plant yn y rhanbarth.

Gallai dull gweithredu mwy rhagweithiol gan adran dai yr awdurdod lleol wella'r cynnig i'r rhai sy'n gadael gofal.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer cyd-arolygu trefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymgyrch wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lou Bushell-Bauers', with a small dot to the right.

Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn